

Rhestr Ddarllen
**Ffynonellau Ystadegau
Etholaethol a Rhanbarthol**

Dyddiad: **Mai 2016**



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Cysylltwch â ni

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

☎ : 0300 200 6328

✉ : Llyfrgell@Cynulliad.Cymru

🌐 : Cynulliad.Cymru/Pigion

🐦 : [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)

🌐 : Cynulliad.Cymru/Ymchwil

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen

Ffynonellau Ystadegau Etholaethol a Rhanbarthol

Mae'r rhan fwyaf o'r ystadegau hyn yn cael eu cyhoeddi ar gyfer etholaethau Seneddol. Mae ffiniau etholaethau yn cael eu hadolygu a'u newid o bryd i'w gilydd, felly nid yw ffiniau etholaethau Seneddol y DU a'r Cynulliad bob amser yr un fath. Felly, mae bob amser yn ddefnyddiol i egluro yn union pa ffiniau y mae'r ffynonellau ystadegol hyn yn ymwneud â hwy, yn enwedig wrth wneud cymariaethau dros amser.

Ffynonellau Cyffredinol o Ystadegau

- Mae bwletin Llywodraeth Cymru ar ddata etholaethol a rhanbarthol yn cynnwys data ar yr economi, iechyd, addysg, tai, yr amgylchedd a thrafnidiaeth, a llawer mwy - **Data ar gyfer ardaloedd etholaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru**.
- Mae mapiau rhyngweithiol y Gwasanaeth Ymchwil o ddata etholaethol a rhanbarthol ar gyfer amrywiaeth eang o feysydd pwnc gan gynnwys mynediad at wasanaethau cyhoeddus a phreifat ar gael yn **Proffiliau Etholaethau 2016**.
- Mae **gwefan Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin** yn cynnwys amrywiaeth o offer ystadegol i archwilio data ar gyfer etholaethau ledled Cymru a gweddill y DU. Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin yw'r hyn sy'n cyfateb yn Senedd y DU i'r Gwasanaeth Ymchwil.
- Mae **Data Cyfrifiad Cymru a Lloegr 2011** y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn cynnwys data ar bynciau megis poblogaeth, iechyd, addysg a sgiliau, tai, yr economi a'r iaith Gymraeg.
- Gwefan **Ystadegau Cymdogaethau** y Swyddfa Ystadegau Gwladol sy'n cynnwys ystadegau etholaethol ar ystod o bynciau tebyg i'r rhai a gwmpesir gan ddata'r Cyfrifiad.

Busnes, yr Economi a'r Farchnad Lafur

- Mae **Proffiliau'r Farchnad Llafur Etholaethau** y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn crynhoi data ar bobl sy'n gweithio a'r rhai nad ydynt yn gweithio, enillion a galwedigaethau ar gyfer pob etholaeth.
- Mae **Briffiau Misol y Farchnad Lafur** y Gwasanaeth Ymchwil yn rhoi'r data diweddaraf ar bobl sy'n gweithio a'r rhai nad ydynt yn gweithio yn ôl etholaeth.
- Mae gan **Gweithgarwch, Maint a Lleoliadau Busnesau'r DU** y Swyddfa Ystadegau Gwladol y data diweddaraf ar fentrau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW a PAYE yn ôl diwydiant, maint a throsiant ar gyfer etholaethau.

Gweler rhestrau darllen datblygu economaidd ac adfywio am wybodaeth bellach.

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

- Mae data ar bynciau megis ysgolion, disgyblion, athrawon a chymhwyster am brydau ysgol am ddim ar gael ar gyfer etholaethau ar **Ystadegau Cymru**.
- Mae'r Gwasanaeth Derbyn i Brifysgolion a Cholegau (UCAS) yn cyhoeddi data blynyddol ar **fynediad i addysg uwch** yn ôl etholaeth.
- Mae **Proffiliau'r Farchnad Lafur Etholaethau** yn darparu manylion am y lefel uchaf o gymhwyster sydd gan drigolion pob etholaeth.

- Mae cyhoeddiad Cyllid a Thollau EM **Plant mewn Teuluoedd Incwm Isel** yn edrych ar lefelau tlodi plant ar lefel etholaeth.

Etholiadau a Phleidleiswyr

- Mae canlyniadau etholaethol a rhanbarthol ar gyfer etholiadau blaenorol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gael ar **Wefan y Cynulliad**.
- Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ystadegau ar nifer yr **Etholwyr yn Etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**.
- Oherwydd gwahaniaethau mewn cymhwyster pleidleiswyr, mae ystadegau ar wahân ar gael ar gyfer Etholiadau Cyffredinol. Mae'r rhain yn cael eu cyhoeddi gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, yn natganiadau **Ystadegau Etholiadol Y DU**.
- Mae'r **Comisiwn Etholiadol** yn cyhoeddi amrediad eang o ystadegau a dadansoddiadau ynghylch etholiadau yng Nghymru a'r DU.

Yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth

- Er bod y rhan fwyaf o ddata amgylcheddol a thrafnidiaeth ar gyfer ardaloedd lleol yng Nghymru yn cael ei gyhoeddi yn ôl awdurdod lleol, mae Cyfrifiad 2011 yn cynnwys data ar **Argaeledd Car neu Fan a Dull Teithio i'r Gwaith**.

Gweler rhestrau darllen yr Amgylchedd a Chludiant am wybodaeth bellach.

Iechyd a Gofal Cymdeithasol

- Er bod y rhan fwyaf o ystadegau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi yn ôl bwrdd iechyd lleol neu awdurdod lleol yn hytrach nag etholaeth, mae'r **datganiad Iechyd a Darpariaeth Gofal Di-dâl** o Gyfrifiad 2011 yn cynnwys peth data etholaeth. Mae hyn yn ystyried a yw pobl yn adrodd bod ganddynt anabledd neu salwch cyfyngus hirdymor, pa mor dda y maent yn meddwl yw eu hiechyd, ac a ydynt yn darparu gofal di-dâl.

Tai

- Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cyhoeddi **Ystadegau Prisiau Tai ar gyfer Ardaloedd Bach**, sy'n cynnwys prisiau cyfartalog tai a nifer y gwerthiannau yn ôl etholaeth.
- Mae Cyfrifiad 2011 yn darparu data etholaethol pellach ar dai. Mae amrywiaeth o bynciau yn cael eu cynnwys, gan gynnwys **Nifer o Anheddau, Deiliadaeth Aelwydydd a Math o Lety**.

Gweler rhestrau darllen Tai am wybodaeth bellach.

Poblogaeth a Demograffeg

- Mae **Amcangyfrifon Poblogaethau Ardaloedd Bychain** y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn darparu amcangyfrifon poblogaeth blynyddol ar gyfer etholaethau.
- Mae Cyfrifiad 2011 yn darparu gwybodaeth fanwl ar boblogaeth a nodweddion demograffig etholaethau, fel **Dwysedd Poblogaeth, Math o Gartref, Statws Priodasol a Phartneriaeth Sifil, Grŵp Ethnig, Hunaniaeth Genedlaethol a Chrefydd**.

Treth, Nawdd Cymdeithasol a Lles

- Mae Cyllid a Thollau EM yn cyhoeddi data etholaethol ar gyfer incwm trethadwy a'r dreth incwm a delir yn ei ddatganiad blynyddol **Incwm personol yn ôl blwyddyn dreth**. Mae hefyd yn cyhoeddi ystadegau etholaethol ar gyfer y rhai sy'n derbyn **Budd-dal Plant a Chredydau Treth**.

- Mae **Offeryn Tablu** yr Adran Gwaith a Phensiynau yn rhoi ystadegau ar ystod o fudd-daliadau nawdd cymdeithasol ar lefel etholaeth. Gellir gweld y rhan fwyaf o'r ystadegau hyn trwy gyfrwng y swyddogaeth **Query** ar NOMIS.
- Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau hefyd yn cyhoeddi data ar Fudd-dal Tai, Taliadau Annibyniaeth Personol ac aelwydydd yr effeithir arnynt gan y newidiadau yn y meini prawf maint budd-dal tai mewn tai cymdeithasol (y 'dreth ystafell wely' neu'r 'cymhorthdal ystafell sbâr') ar ei **offeryn Stat-Xplore**. Mae'n rhoi manylion am **Wariant Budd-daliadau yn ôl Etholaeth Seneddol**, ac ar y nifer o bobl ac aelwydydd sy'n derbyn **Taliad Tanwydd Gaeaf**.
- Mae Cyllid a Thollau EM yn cyhoeddi **data etholaeth blynyddol ar gyfer y Dreth Stamp**, gan gynnwys cyfansymiau blynyddol a dadansoddiadau o Drethi Stamp a gasglwyd ar gyfer y ddau brif gategori sef 'Tir ac Eiddo' a 'Stociau a chyfranddaliadau a gwarantau rhwymedig eraill'.